HM Prison & Probation Service

# Sefydliad Troseddwyr Ifanc EF (STIEF) y Parc

Ymateb i archwiliad Arolygiaeth Carchardai EF (HMIP): 09 Mawrth – 19 Mawrth 2026

Cyhoeddi adroddiad Arolygiaeth Carchardai EF (HMIP): 16 Mehefin 2026

**Cyflwynwyd: 9 Gorffennaf 2026**

# Cyflwyniad

Mae Arolygiaeth Carchardai EF (HMIP) ac Arolygiaeth Prawf EF (HMIP) ar gyfer Cymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy'n craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion a throseddwyr, a'r ffordd y cânt eu trin.

Maent yn adrodd ar eu canfyddiadau ar gyfer carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc ac ar effeithiolrwydd gwaith y gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid ledled Cymru a Lloegr i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS).

Mewn ymateb i'r adroddiad, rhaid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder lunio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a'r pryderon allweddol.

Mae cynlluniau gweithredu'n darparu camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, sy'n glir, yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, gydag atebolrwydd clir ac amserlenni priodol ar gyfer cwblhau.

Anfonir cynlluniau gweithredu at yr Arolygiaeth Carchardai EF perthnasol a'u cyhoeddi ar wefan GOV.UK. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy strwythurau llywodraethu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

# Pryderon a chamau gweithredu blaenoriaethol

| Rhif | Pryderon | Ymateb: Camau a gymerwyd / a gynlluniwyd | Perchennog cyfrifol | Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Cafodd y gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd i blant ei danseilio gan lefelau cyfyngedig o adrodd am ddigwyddiadau, trefniadau cadw cofnodion anghyson, a phroses drosglwyddo nad oedd yn ddigon cadarn.** | **Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y darparwr iechyd) a'r Pennaeth Gofal Iechyd (HoH) yn gwella'r modd y darperir gwasanaethau iechyd drwy wneud y canlynol:** | **Gweler isod:** | **Gweler isod:** |
| | Fel yr uchod | Cynnal adolygiad llawn o'r prosesau presennol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau er mwyn sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau adroddadwy yn cael eu cofnodi. | Darparwr Ie-chyd | Wedi'i gwblhau |
| | Fel yr uchod | Ar ôl cwblhau'r adolygiad, bydd proses wedi'i diweddaru yn cael ei gwreiddio'n ffurfiol drwy strwythurau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, gan sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau adrodd ar ddigwyddiadau GIG Cymru. | Cyfarwyddwr/ Darparwr Ie-chyd | Gorffennaf 2026 |
| | Fel yr uchod | Bydd lefelau adrodd yn cael eu monitro'n barhaus yng nghyfarfod llywodraethu gweithredol misol Gofal Iechyd y Carchar, a thrwy strwythur cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Partneriaeth Iechyd, a fynychir gan y Cyfarwyddwr neu'r Dirprwy Gyfarwyddwr a rheolydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. | Cyfarwyddwr/ Darparwr Ie-chyd | Gorffennaf 2026 |

| Rhif | Pryderon | Ymateb: Camau a gymerwyd / a gynlluniwyd | Perchennog cyfrifol | Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|
| | Fel yr uchod | Bydd safonau cadw cofnodion yn cael eu gwella drwy fonitro safonau dogfennau bob mis drwy System Rheoli ac Olrhain Archwiliadau (AMaT) GIG Cymru, gan gynnwys cwblhau asesiadau CHAT (adnodd asesu iechyd cynhwysfawr) a safonau cynlluniau gofal yn brydlon. Bydd meysydd a nodwyd ar gyfer gwella a dysgu yn cael eu bwydo'n ôl i'r tîm nyrsio yn y carchar. | Darparwr Iechyd | Awst 2026 |
| | Fel yr uchod | Bydd y Pennaeth Gofal Iechyd yn adolygu'r broses drosglwyddo, ac yna'n gweithredu dogfen drosglwyddo ddiwygiedig i sicrhau bod gwybodaeth glinigol yn cael ei throsglwyddo mewn ffordd fwy strwythuredig, cyson a chynhwysfawr y gall pob aelod o staff ei deall, yn enwedig y staff sy'n darparu gwasanaeth brys o'r carchar i oedolion. | Darparwr Iechyd | Wedi'i gwblhau |
| | Fel yr uchod | Bydd y Pennaeth Gofal Iechyd yn gweithredu eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfod llywodraethu Gweithredol Gofal Iechyd Carchardai, er mwyn sicrhau ansawdd prosesau trosglwyddo diwygiedig. Bydd unrhyw welliannau neu newidiadau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith yn dilyn hyn i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chyfleu'n gyson wrth drosglwyddo pob shifft. | Cyfarwyddwr/ Darparwr Iechyd | Medi 2026 |
| 2 | **Nid oedd y cynnig galwedigaethol yn y cwricwlwm yn ddigon eang.** | **Bydd Novus Gower (y darparwr dysgu a sgiliau) a STIEF y Parc yn gwella'r cynnig galwedigaethol sydd ar gael i blant drwy wneud y canlynol:** | **Gweler isod:** | **Gweler isod:** |
| | Fel yr uchod | Lansio gweithdy barbwr newydd a fydd yn cyflwyno VTCT (*Vocational Training Charitable Trust* - sefydliad dyfarnu sy'n cynnig | Cyfarwyddwr/ Darparwr Addysg | Awst 2026 |

| Rhif | Pryderon | Ymateb: Camau a gymerwyd / a gynlluniwyd | Perchennog cyfrifol | Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|
| | | cymwysterau galwedigaethol a thechnegol) sy'n cefnogi cymwysterau barbwr o Lefel Mynediad 3 hyd at Lefel 2. | | |
| | Fel yr uchod | Ailagor yr ystafell ddosbarth arlwyo erbyn mis Hydref 2026 i ddarparu cymwysterau arlwyo, hylendid bwyd a lletygarwch achrededig VTCT o Lefel Mynediad 3 i Lefel 2. | Cyfarwyddwr/ Darparwr Addysg | Hydref 2026 |
| | Fel yr uchod | Mae hyfforddiant galwedigaethol ychwanegol yn cael ei ddatblygu gyda Choleg Pen-y-bont ar Ogwr; gan gynnwys pecyn o gymwysterau adeiladu, cymorth cyntaf, rheoli traffig a cherdyn ardystio CSCS (Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu). Bydd y cyrsiau hyn yn cael eu cynnal fel cyrsiau annibynnol drwy gydol y flwyddyn, gan roi cyfle i blant sy'n cael eu rhyddhau i ardal De Cymru gael mynediad at gymorth addysgol parhaus, cyfleoedd prentisiaethau ac arweiniad gyrfaoedd gan sefydliadau sy'n agos at eu cyfeiriadau cartref. | Cyfarwyddwr/ Darparwr Addysg | Medi 2026 |
| | Fel yr uchod | Bydd y cynnig galwedigaethol sydd ar gael yn cael ei fonitro a'i olrhain yng nghyfarfodydd wythnosol Addysg, Sgiliau a Gwaith (ESW), y Grŵp Gwella Ansawdd (QIG) misol, a'r Bwrdd Partneriaeth Dysgu a Sgiliau. | Cyfarwyddwr/ Darparwr Addysg | Wedi'i gwblhau |
| 3 | **Nid oedd datblygiad proffesiynol mewn addysg yn canolbwyntio'n gyson ar ddatblygu dulliau addysgu** | **Bydd Novus Gower a STIEF y Parc yn gwella datblygiad proffesiynol athrawon a hyfforddwyr drwy wneud y canlynol:** | **Gweler isod:** | **Gweler isod:** |

| Rhif | Pryderon | Ymateb: Camau a gymerwyd / a gynlluniwyd | Perchennog cyfrifol | Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|
| | **hyfforddwyr ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu penodol.** | | | |
| | Fel yr uchod | Rhoi rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant proffesiynol ar waith ar gyfer pob athro a hyfforddwr. Canolbwyntio ar dechnegau addysgeg i gefnogi'r gwaith o addysgu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn STIEF y Parc, yn enwedig wrth gefnogi dysgwyr ag ASD (anhwylder sbectrwm awtistiaeth), ADHD (anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd), dyslecsia a'r rhai ag anawsterau SEMH (Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol). | Darparwr Addysg | Wedi'i gwblhau |
| | Fel yr uchod | Adolygu'r Calendr Ansawdd i gefnogi'r trefniadau ar gyfer gwerthuso'r addysgu mewn ffordd fwy cadarn a chyson, gan ddefnyddio trefniadau arsylwi addysgu a throeon dysgu a fydd yn canfod meysydd i'w gwella a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer staff, gan gynnwys adborth priodol i wella ansawdd yr addysgu. | Darparwr Addysg | Gorffennaf 2026 |
| | Fel yr uchod | Gwella'r trefniadau monitro ansawdd (arsylwi gwersi, troeon dysgu a gwirio gwaith) a'r trefniadau dysgu ar gyfer yr holl staff, gydag arweinwyr Novus Gower yn sicrhau bod pob athro a hyfforddwr yn cael adborth datblygiadol o ansawdd uchel ar eu haddysgu, a bod yr adborth hwnnw yn cael ei ymgorffori yn eu cynllun DPP personol bob chwarter i wella ansawdd y ddarpariaeth. | Darparwr Addysg | Gorffennaf 2026 |
| | Fel yr uchod | Bydd Pennaeth Addysg, Sgiliau a Gwaith G4S, y Rheolwr Diwydiannau a Rheolwr Dysgu a Sgiliau Novus Gower yn gwneud | Cyfarwyddwr/ Darparwr Addysg | Gorffennaf 2026 |

| Rhif | Pryderon | Ymateb: Camau a gymerwyd / a gynlluniwyd | Perchennog cyfrifol | Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|
| | | archwiliadau sicrhau ansawdd misol o’r ddarpariaeth addysg fel rhan o’r calendr ansawdd a’r cylch ansawdd. | | |
| | Fel yr uchod | Bydd sicrwydd ansawdd a thargedau ar gyfer gwella yn cael eu cofnodi, eu monitro a’u tracio yng nghyfarfod misol y Grŵp Gwella Ansawdd a’r Bwrdd Partneriaeth Dysgu a Sgiliau. | Cyfarwyddwr/ Darparwr Addysg | Wedi’i gwblhau |
| 4 | **Nid oedd trefniadau monitro amddiffyn y cyhoedd yn ddigon cadarn**. Nid oedd y staff sy’n gyfrifol am fonitro wedi cael hyfforddiant ar adnabod materion diogelu sy’n benodol i blant. | **Bydd y Pennaeth Diogelwch yn gwella trefniadau monitro diogelu’r cyhoedd drwy wneud y canlynol:** | **Gweler isod:** | **Gweler isod:** |
| | Fel yr uchod | Sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am fonitro cyfathrebu yn cwblhau hyfforddiant diogelu penodol i blant, a ddarperir gan Dîm Diogelu STIEF y Parc fel rhan o'u rhaglen hyfforddi, a gofnodir ar y Traciwr Hyfforddiant Diogelwch. Bydd yr hyfforddiant yn helpu i wella dealltwriaeth staff o iaith sy’n benodol i blant er mwyn gwella eu gallu i nodi pryderon. | Cyfarwyddwr | Gorffennaf 2026 |
| | Fel yr uchod | Cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd wythnosol i sicrhau mai dim ond staff hyfforddedig sy’n cael tasgau monitro, a bod pryderon a nodwyd yn cael eu cofnodi. Bydd yr archwiliadau hefyd yn adolygu pa mor brydlon y caiff galwadau monitro eu cynnal, yn ogystal â'r negeseuon a anfonir drwy'r tabledi yn y celloedd. | Cyfarwyddwr | Medi 2026 |